# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Asesiad Effaith Integredig

Bwriedir i'r asesiad effaith integredig hwn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ar sail gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Ymgynghori Statudol yn erbyn Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

**NODER: Dim ond os bydd cynigion yn rhai strategol eu natur neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen llenwi Adran 3 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru Y Ddyletswyd Economaidd-gymdeithasol.**

NODER: Disodlwch unrhyw destun llwyd, mae yno i'ch arwain. Sicrhewch fod lliw'r ffont yn cael ei drosi i ddu am resymau hygyrchedd.

## 1. Manylion y Cynnig

| Swyddog Arweiniol | Pennaeth Gwasanaeth | Maes Gwasanaeth ac Adran | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Andrea West/Lisa Thomas | Sue Richards | Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | Mehefin 2024 |

| **Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu?** Rhowch fanylion cryno am y cynnig a dolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol. |
|---|
| Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:<br>○ **Uno Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Fabanod Hendre i greu darpariaeth ysgol gynradd newydd o fis Medi 2025 ymlaen**<br><br>'Uno' yw pan fo dwy neu fwy o ysgolion presennol yn dod yn un ysgol, er enghraifft, lle mae cyn-ysgol fabanod a chyn-ysgol iau yn dod yn ysgol gynradd, sef y cynnig yn yr achos hwn. |

| |
|---|
| Mae'r ddwy ysgol wedi bod yn 'cydweithredu' yn anffurfiol ers mis Medi 2022. Maen nhw'n rhannu'r un Pennaeth ac mae'r ddau gorff llywodraethu yn cydweithio er budd gorau'r ysgolion, y disgyblion a'r gymuned ehangach.<br><br>Cynigir y byddai safleoedd presennol yr ysgolion yn parhau i fod ar waith ond yn gweithredu fel un campws ysgol gynradd ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau dalgylch a rennir presennol.<br><br>Mae cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol wedi cytuno i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer statws uno mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol. |

## 2. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

(Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol). Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd gwarchodedig.

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(pobl o bob oedran)* | **Niwtral**<br><br>Ar hyn o bryd, mae Ysgol Iau Hendre (Cyfnod Allweddol 2: 7-11 oed) ac Ysgol Fabanod Hendre (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1: 3-7 oed) yn gweithredu dros ddau safle ar wahân ar ddwy ochr St Cenydd Road, Caerffili. Bydd yr ysgol gynradd newydd yn parhau â'r trefniant hwn. | Dim wedi'u nodi | Dim Newid i'r ystod oedran |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd** *(pobl ag anableddau/ cyflyrau hirdymor)* | **Niwtral**<br><br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Ailbennu Rhywedd** *(pobl y mae eu hunaniaeth neu eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni)* | **Niwtral**<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** *(pobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil)* | **Niwtral**<br>Dim effaith | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** *(menywod sy'n feichiog a/neu sydd ar absenoldeb mamolaeth)* | **Niwtral**<br>Dim effaith | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Hil** *(pobl o gymunedau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac o wahanol gefndiroedd hiliol)* | **Niwtral**<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa | Ddim yn gymwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | |
| **Crefydd neu Gred** *(pobl â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | **Niwtral**<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Rhyw** *(menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n pennu eu rhywedd eu hunain)* | **Niwtral**<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |

## 3. Y Ddyletswydd Economiadd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau yn wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn wirioneddol wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, os o gwbl, sy'n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)

**Ystyriwch y grwpiau ychwanegol hyn sy'n agored i niwed a'r effaith y gallai eich cynnig ei chael arnynt:**
Aelwydydd ag un oedolyn
Cymuned y Lluoedd Arfog
Gofalwyr
Myfyrwyr
Pensiynwyr
Plant sy'n derbyn gofal

Pobl â lefel isel o lythrennedd/ rhifedd Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed
Pobl ddigartref
Pobl o bob oedran sy'n gadael lleoliad gofal
Pobl sydd â phrofiad o'r system loches
Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALlC)
Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
Pobl sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

| [Anfantais Economaidd-gymdeithasol]() | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Incwm Isel / Tlodi Incwm** *(methu fforddio gwneud taliadau rheolaidd megis biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati)* | **Niwtral**<br>Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys |
| **Fawr ddim Cyfoeth a/neu Ddim Cyfoeth** *(digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a biliau ond nid oes gennych unrhyw gynilion i ddelio â gwariannau annisgwyl nac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | **Niwtral**<br>Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys |
| **Amddifadedd Materol** *(methu cael nwyddau na gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol megis yswiriant bywyd, atgyweirio nwyddau trydanol wedi torri neu brynu rhai newydd, cartref cynnes, hobïau ac ati)* | **Niwtral**<br>Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd Ardal** *(lle mae rhywun yn byw (ardaloedd gwledig), lle mae rhywun yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus). Effaith ar yr amgylchedd?* | **Niwtral**<br>Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys |
| **Cefndir Economaidd-gymdeithasol** *(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | **Niwtral**<br>Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys |

## 4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor

(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw rai/pob un o Amcanion Llesiant y Cyngor? Sydd, yn eu tro, yn helpu i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A fydd yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral)? Os bydd yn cael effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi'u lliniaru?) *Cynllun Corfforaethol*

| | |
|---|---|
| **Amcan 1 - Galluogi ein Plant i Lwyddo mewn Addysg** | Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu addysg o ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc, sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion gan ddatblygu eu potensial, ehangu eu gorwelion, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chyfrannu at adfywiad economaidd yr ardal. Er bod cynnydd wedi'i gyflawni, mae gwaith ar ôl i'w wneud i wella canlyniadau a llesiant plant a phobl ifanc.<br>Ar hyn o bryd, mae Ysgol Iau Hendre(Cyfnod Allweddol 2 : 7-11 oed) ac Ysgol Fabanod Hendre (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 : 3-7 oed) yn gweithredu dros ddau safle ar wahân ar ddwy ochr St Cenydd Road, Caerffili.<br>Bydd datblygu darpariaeth ysgol gynradd gyflawn yn ardal Nelson yn adeiladu ar gryfderau unigol yr ysgol fabanod a'r ysgol iau er mwyn sicrhau y caiff profiadau eu gwella ymhellach, fel y gellir darparu safonau |

| | |
|---|---|
| | addysg sydd hyd yn oed yn uwch. Bydd yn galluogi safbwynt ysgol gyfan a dull cyson mewn perthynas â dysgu ac addysgu, cyflwyno'r cwricwlwm a chyflawniad, drwy un weledigaeth sydd ag ethos cyson a fydd o fudd i'r disgyblion, y staff a rhieni/gofalwyr. |
| **Amcan 2 - Galluogi ein Preswylwyr i Ffynnu** | Un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor yw sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion yn y lleoliadau mwyaf priodol a sicrhau ei fod yn ymwybodol o newidiadau demograffig (h.y. cynnydd a gostyngiadau ym mhoblogaeth disgyblion). Mae gofyn i'r Cyngor hefyd nodi strategaeth ym mhob rhan o'r awdurdod i greu darpariaeth gymunedol mewn ysgolion, yn ogystal â darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol neu anableddau.<br><br>Mae'r Awdurdod yn cydnabod effaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r angen i sicrhau bod darpariaeth yn addas ar gyfer y dyfodol.<br><br>Bydd y cynnig hwn yn helpu'r ysgol gynradd newydd ei ffurfio i ddarparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol a'u cynorthwyo nhw, gan alluogi gwell hygyrchedd, hyblygrwydd a meysydd amlswyddogaethol y gellir eu haddasu yn amodol ar alw. |
| **Amcan 3 - Galluogi ein Cymunedau i Ffynnu** | Ar hyn o bryd, darperir darpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-11 oed (Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 1 a 2) yn nalgylch Hendre mewn dau leoliad ar ddwy ochr St Cenydd Road, Caerffili.<br><br>Agorwyd safle Ysgol Iau Hendre yn gorchuddio cyfanswm arwynebedd o tua 1 hectar sy'n cynnwys 1 strwythur ac ardaloedd chwarae awyr agored.<br><br>Mae gan yr adeilad ysgol arwynebedd mewnol gros o 1,315 metr sgwâr. Mae gan yr ysgol radd cyflwr B, gradd addasrwydd B a chategori Tystysgrif Ynni Arddangos D. |

| | |
|---|---|
| | Agorwyd safle Ysgol Fabanod Hendre yn gorchuddio cyfanswm arwynebedd o tua 0.4 Hectar sy'n cynnwys 4 strwythur ac ardaloedd chwarae awyr agored.<br><br>Mae gan yr adeilad ysgol arwynebedd mewnol gros o 1,365 metr sgwâr. Mae gan yr ysgol sgôr cyflwr C+, gradd addasrwydd C a chategori Tystysgrif Ynni Arddangos C.<br><br>Mae uno ysgolion yn dod â dwy ysgol (neu fwy) at ei gilydd fel un ysgol sengl, wedi'u lleoli ar yr un safle ac o dan yr un arweinyddiaeth a llywodraethu.<br><br>Mae'r cynnig yn ceisio cadw'r ddau safle ysgol presennol, oherwydd eu hagosrwydd, a ffurfio un campws fel darpariaeth Ysgol Gynradd. Bydd y trefniant hwn yn arwain at newidiadau i drefniadau'r Cyrff Llywodraethu cyfredol, fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith canfyddedig ar ddarparu addysg, cymuned ehangach yr ysgol nac unrhyw grwpiau sy'n defnyddio adeiladau'r ysgolion ar gyfer gweithgareddau ar hyn o bryd. |
| **Amcan 4 - Galluogi ein Heconomi i Dyfu** | Mae'r cynnig yn ceisio cadw'r ddau safle ysgol presennol, oherwydd eu hagosrwydd, a ffurfio un campws fel darpariaeth Ysgol Gynradd. Bydd y trefniant hwn yn arwain at newidiadau i drefniadau'r Cyrff Llywodraethu cyfredol, fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith canfyddedig ar ddarparu addysg, cymuned ehangach yr ysgol nac unrhyw grwpiau sy'n defnyddio adeiladau'r ysgolion ar gyfer gweithgareddau ar hyn o bryd. |
| **Amcan 5 - Galluogi ein Hamgylchedd i fod yn Wyrddach** | Mae'r cynnig yn ceisio uno Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Fabanod Hendre. Nid oes unrhyw darfu arfaethedig ar drefniadau teithio presennol sy'n gysylltiedig â'r broses hon gan fod y ddau safle ysgol yn gyfagos i'w gilydd ac nid oes unrhyw newidiadau i drefniadau dalgylch.<br><br>Bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Trafnidiaeth y Cyngor. |

| **Cysylltiadau â Pholisïau perthnasol eraill y Cyngor**<br>*(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw bolisïau perthnasol eraill sydd gan y Cyngor?)* |
|---|
| **Dilyn Rhagoriaeth Gyda'n Gilydd – Strategaeth Addysg Awdurdod Lleol Caerffili**<br>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dechrau ar daith gyffrous, ond heriol, i gyflwyno gwelliannau a newidiadau.<br>Mae angen i Ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da ac yn addas i ddarparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio, trwsio, adnewyddu, ehangu neu ailadeiladu ysgolion yn rhannol i gyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer dulliau addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn y lleoliad cywir ar hyn o bryd ac mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn cynnig adeiladu ysgolion newydd neu newid ysgolion sydd eisoes yn bodoli.<br>Rydym yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella safonau'r amgylchedd dysgu i greu ysgolion yr 21ain ganrif a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili. |

## 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio

(Gelwir hefyd yn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut y bydd unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)

| Y Pum Ffordd o Weithio | Sut rydych wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig? |
|---|---|
| **Hirdymor** | Mae prif fanteision y cynnig yn cynnwys:<br><br>• Parhad a chynnydd dysgu<br>• Cyfleoedd ar gyfer mwy o gyswllt addysgol â phlant iau a hŷn a'r cyfle i rannu deilliannau dysgu ar draws y cyfnodau allweddol<br>• Un weledigaeth ac ethos cyson er budd y disgyblion, y staff a rhieni/gofalwyr<br>• Defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys adnoddau dynol ac adnoddau addysgol<br>• Mwy o bosibiliadau ar gyfer defnyddio'r adeiladau a'r ystafelloedd mewn ffordd effeithiol, effeithlon a hyblyg a'r gallu i gynnal a chadw'r safle'n fwy effeithlon<br>• Seilwaith gweinyddol symlach a chryfach sy'n osgoi dyblygu adnoddau |
| **Atal** | Prif anfanteision uno yw:<br><br>• Colli Pennaeth, fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae un Pennaeth yn gweithio ar draws safleoedd yr Ysgol Iau a'r Ysgol Fabanod, felly, mae'r anfantais hon eisoes wedi'i lliniaru. |

| | |
|---|---|
| | <ul><li>Byddai uno yn golygu sefydlu un Corff Llywodraethu yn hytrach na'r ddau sy'n cydweithio ar draws y ddau safle ar hyn o bryd.</li><li>Byddai'r ysgol gynradd yn naturiol yn endid mwy na'r drefn ysgolion Babanod ac Iau ar wahân, ond byddai'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn rhoi strwythur staffio priodol ar waith i sicrhau bod pob plentyn yn hapus ac yn gallu ffynnu.</li><li>I'r rhai sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd, byddai'r uno yn arwain at hunaniaeth newydd i'r ysgol, fodd bynnag, bydd yr ysgol a'r Awdurdod Lleol yn darparu cymorth i leihau unrhyw effaith yn ystod y cyfnod pontio.</li></ul><br>Caiff y risgiau eu rheoli'n rhagweithiol yn unol â'n gweithdrefnau rheoli risgiau.<br>Mae gan yr Awdurdod Lleol brofiad o gefnogi gweithgareddau cydweithio, ffedereiddio ac uno a bydd yn darparu cymorth i'r ysgolion a'r Cyrff Llywodraethu i weithredu'r cynnig pe bai'n cael cymeradwyaeth gan y Cabinet. |
| **Integreiddio** | 'Uno' yw pan fo dwy neu fwy o ysgolion presennol yn dod yn un ysgol, er enghraifft, lle mae cyn-ysgol fabanod a chyn-ysgol iau yn dod yn ysgol gynradd, sef y cynnig yn yr achos hwn.<br><br>Mae'r ddwy ysgol wedi bod yn 'cydweithredu' yn anffurfiol ers mis Medi 2022. Maen nhw'n rhannu'r un Pennaeth ac mae'r ddau gorff llywodraethu yn cydweithio er budd gorau'r ysgolion, y disgyblion a'r gymuned ehangach.<br><br>Cynigir y byddai safleoedd presennol yr ysgolion yn parhau i fod ar waith ond yn gweithredu fel un campws ysgol gynradd ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau dalgylch a rennir presennol.<br><br>Mae cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol wedi cytuno i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer statws uno mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol. |
| **Cydweithio** | Mae'r ddwy ysgol wedi bod yn 'cydweithredu' yn anffurfiol ers mis Medi 2022. Maen nhw'n rhannu'r un Pennaeth ac mae'r ddau gorff llywodraethu yn cydweithio er budd gorau'r ysgol, y disgyblion a'r gymuned ehangach.<br><br>Mae cyrff llywodraethu Ysgol Fabanod Hendre ac Ysgol Iau Hendre wedi cwrdd â'r Awdurdod Lleol yn |

| | |
|---|---|
| | unigol ac ar y cyd i ystyried opsiynau ar gyfer adeiladu ymhellach ar y trefniant llwyddiannus hwn sy'n cynnwys y ddwy ysgol.<br><br>Trafodwyd yr opsiynau canlynol:<br><br>**Opsiwn 1- Gwneud dim byd**<br>Dim newid i'r trefniant cydweithio presennol rhwng ysgolion.<br>Mae ysgolion cynradd a phlant yn parhau fel y mae.<br>2 Gorff Llywodraethu ar wahân yn parhau i gydweithio<br><br>**Opsiwn 2 - Ffedereiddio**<br>Mae 'ffedereiddio' yn broses gyfreithiol sy'n galluogi dwy neu fwy o ysgolion presennol i gydweithio, gan gadw eu hunaniaeth unigol eu hunain o ran enw, diwylliant, ethos a pharhau i reoli eu cyllidebau eu hunain, ond un corff llywodraethu sy'n goruchwylio.<br><br>**Opsiwn 3 - Uno**<br>Mae 'uno' yn broses gyfreithiol sy'n galluogi dwy neu fwy o ysgolion presennol i weithio gyda'i gilydd a dod yn un ysgol, er enghraifft, lle mae cyn-ysgol fabanod a chyn-ysgol iau yn dod yn ysgol gynradd, gydag un ethos, strwythur staffio, cyllideb a chorff llywodraethu, sef y cynnig yn yr achos hwn.<br><br>Ystyriodd cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol yr opsiynau a gyflwynwyd iddyn nhw ac maen nhw wedi cytuno i fwrw ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer statws uno mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol. |
| **Cynnwys** | Drwy fodel TîmCaerffili - Yn Well gyda'n Gilydd, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i'r cymunedau yn ein bwrdeistref sirol. Wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen defnyddio gweithgareddau ymgysylltu effeithiol sy'n rhan ganolog o'n proses benderfynu<br><br>Ar gyfer y cynnig hwn, mae'n rhaid i'n proses ymgynghori ddilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.<br><br>Bydd Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yng Nghaerffili yn sicrhau y caiff trefniadau addas eu gwneud i ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys yn y broses, yn ogystal ag ar ôl i'r gwaith ddod i ben, |

| | |
|---|---|
| | wrth gyflwyno unrhyw gynnig.  Caiff fersiwn o'r Ddogfen Ymgynghori sy'n addas i blant ei chynhyrchu a chaiff unrhyw adborth gan ddisgyblion a Chynghorau Ysgol ei gynnwys yn y ddogfennaeth a anfonir ymlaen i'r Cabinet i'w hystyried unwaith i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. |

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| Nodau Llesiant | **A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant a sut?** |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas* | Dim Newid a Ragwelir<br><br>'Uno' yw pan fo dwy neu fwy o ysgolion presennol yn dod yn un ysgol, er enghraifft, lle mae cyn-ysgol fabanod a chyn-ysgol iau yn dod yn ysgol gynradd, sef y cynnig yn yr achos hwn.<br><br>Mae'r ddwy ysgol wedi bod yn 'cydweithredu' yn anffurfiol ers mis Medi 2022. Maen nhw'n rhannu'r un Pennaeth ac mae'r ddau gorff llywodraethu yn cydweithio er budd gorau'r ysgolion, y disgyblion a'r gymuned ehangach.<br><br>Cynigir y byddai safleoedd presennol yr ysgolion yn parhau i fod ar waith ond yn gweithredu fel un campws ysgol gynradd ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau dalgylch a rennir presennol. |
| **Cymru gydnerth**<br>*Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (ar gyfer newid yn yr hinsawdd)* | Dim Newid a Ragwelir<br><br>Cynigir y byddai safleoedd presennol yr ysgolion yn parhau i fod ar waith ond yn gweithredu fel un campws ysgol gynradd ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau dalgylch a rennir presennol. |

| | |
|---|---|
| **Cymru iachach**<br>*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol* | Bydd datblygu darpariaeth ysgol gynradd gyflawn yn ardal Nelson yn adeiladu ar gryfderau unigol yr ysgol fabanod a'r ysgol iau er mwyn sicrhau y caiff profiadau eu gwella ymhellach, fel y gellir darparu safonau addysg sydd hyd yn oed yn uwch. Bydd yn galluogi safbwynt ysgol gyfan a dull cyson mewn perthynas â dysgu ac addysgu, cyflwyno'r cwricwlwm a chyflawniad, drwy un weledigaeth sydd ag ethos cyson a fydd o fudd i'r disgyblion, y staff a rhieni/gofalwyr.<br><br>Mewn ysgol gynradd, mae'r holl blant – iau a hŷn – yn cael cyfleoedd i rannu canlyniadau eu dysgu a datblygu dealltwriaeth ddatblygedig o'r amrywiaeth o gyflawniadau personol ar draws y cyfnodau allweddol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>*Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)* | Mae ysgol gynradd yn darparu amgylchedd lle gall plant weithio a chwarae gyda'i gilydd am gyfnod hwy, gan ddatblygu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gryfderau, sgiliau a phersonoliaethau amrywiol ei gilydd. Dangoswyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol, datrys problemau a datblygu cydberthnasau rhwng holl aelodau'r gymuned. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus**<br>*Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da* | Cynigir y byddai'r safleoedd ysgol presennol yn parhau i fod yn weithredol ond yn gweithredu fel un campws ysgol gynradd ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau rhannu dalgylch presennol. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>*Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden* | Mynediad at ystod fwy o ddoniau ac arbenigedd staff gan fod nifer mwy o staff a chyfleoedd cyfoethogi ehangach sy'n rhan annatod o'r cwricwlwm ehangach |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>*Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn* | Ni ragwelir unrhyw effaith ar y trefniadau presennol yn yr ardal leol. Mae'r cynnig yn ceisio darparu darpariaeth ysgol gynradd drwy ddod ag ysgol babanod ac iau at ei gilydd. |

| | |
|---|---|
| *ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang* | |

## 7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg) *Safonau Llunio Polisi – Dogfen Gyngor Arferion Da*

| Gofyniad | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? *e.e y CSCA, TAN20, CDLl, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion* |
|---|---|---|---|
| **Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 a Phroffil iaith BSC** | **Cadarnhaol**<br>Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgolion.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Ymgysylltir â Fforwm Cymraeg Caerffili fel rhan o'r broses o roi'r cynnig hwn ar waith er mwyn sicrhau bod pob sefydliad perthnasol yn rhan o'r cynlluniau i hyrwyddo'r Gymraeg. | Ddim yn gymwys | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)<br><br>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2022-2032<br><br>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2022-2027<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg<br><br>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.<br><br>**Menter Iaith Caerffili:** Proffil Iaith 2021 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) |
| **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.** *Safonau 88–93 yn benodol* | **Cadarnhaol**<br>Ar hyn o bryd, gellir darparu ar gyfer gofynion i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darparu addysg drwy ddewis iaith y plentyn / teulu a'r hawl sydd gan bobl i hyn o dan Fesur y Gymraeg. Mae hyn yn creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Caiff yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig, ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd yn bosibl anfon a derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwrthwynebiadau, yn | Bydd y broses yn ystod y cyfnod Ymgynghori a'r cyfnod Gwrthwynebu yn sicrhau y caiff ymgyngoreion allweddol eu targedu, fel yr amlinellir yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; bydd y broses yn cynnig cyfleoedd i unigolion ymateb yn eu dewis iaith – Cymraeg neu Saesneg.<br><br>Yn ogystal, ymgynghorir â phlant a phobl ifanc y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt drwy sesiynau gwybodaeth ac adborth wedi'u targedu. Caiff fersiynau o'r ddogfennaeth sy'n addas i blant eu cynhyrchu hefyd a bydd y rhain ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg. | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)<br><br>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2022-2032<br><br>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2022-2027<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg<br><br>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.<br><br>**Menter Iaith Caerffili:** Proffil Iaith 2021<br><br>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg** *e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn y gwaith/cymuned* | **Cadarnhaol**<br>Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgolion.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Ar hyn o bryd, gellir darparu ar gyfer gofynion i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darparu addysg drwy ddewis iaith y plentyn / teulu a'r hawl sydd gan bobl i hyn o dan Fesur y Gymraeg.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd yr holl arwyddion yn yr adeilad newydd arfaethedig yn ddwyieithog.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal yn ddwyieithog lle y bo hyn yn briodol a / neu lle y gwneir cais am hyn. | Ddim yn gymwys<br><br>Bydd yr arwyddion yn ddwyieithog<br><br>Wrth recriwtio staff newydd i'r ysgol, pwysleisir y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg; ystyrir bod hon yn rhinwedd ddymunol | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)<br><br>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2022-2032<br><br>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2022-2027<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg<br><br>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.<br><br>**Menter Iaith Caerffili:** Proffil Iaith 2021<br><br>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr** | **Cadarnhaol**<br>Bydd y cynnig yn creu cyfleoedd pellach i bobl | Cynigir darpariaeth Gymraeg ail iaith ar hyn o bryd. | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddefnyddio'r Gymraeg drwy weithgareddau pob dydd, gan gynnwys disgyblion ac athrawon.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r staff drwy gynnig cyrsiau Cymraeg am ddim, a rhai sydd wedi'u teilwra i feysydd gwaith penodol. Byddai'r cynnig hwn yn cefnogi'r staff i fanteisio ar unrhyw ddarpariaeth, yn ôl yr angen.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgolion.<br><br>Bydd uno'r ddwy ysgol yn arwain at well parhad o ran datblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion a mwy o arbenigedd staff i fanteisio arno. | Bydd prosesau recriwtio a dethol yn nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgìl dymunol. | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2022-2032<br><br>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2022-2027<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg<br><br>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.<br><br>**Menter Iaith Caerffili:** Proffil Iaith 2021<br><br>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** | **Cadarnhaol**<br>Ar hyn o bryd, gellir darparu ar gyfer gofynion i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r | Cynigir darpariaeth Gymraeg ail iaith ar hyn o bryd | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ysgol i drafod darparu addysg drwy ddewis iaith y plentyn / teulu a'r hawl sydd gan bobl i hyn o dan Fesur y Gymraeg.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Caiff yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig, ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd yn bosibl anfon a derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwrthwynebiadau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2022-2032<br><br>Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2022-2027<br><br>Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg<br><br>Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.<br><br>**Menter Iaith Caerffili:** Proffil Iaith 2021<br><br>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) |

| **Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** |
|---|
| **Angen a galw**<br>Fel rhan o'r cynnig i uno Ysgol Fabanod Hendre ac Ysgol Iau'r Hendre i ffurfio ysgol gynradd newydd mae'r Cyngor yn ceisio cefnogi'r agenda leol a chenedlaethol ymhellach wrth ddatblygu safonau Cymraeg mewn addysg er mwyn arfogi Cymru ddwyieithog â gweithlu dwyieithog medrus, gan gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Po fwyaf o ddisgyblion sy'n mwynhau datblygu eu sgiliau Cymraeg mewn addysg gynradd, y mwyaf tebygol yw hi o barhau i |

| |
|---|
| ddatblygu'r sgiliau hyn mewn addysg uwchradd a chael cyfleoedd i gyfoethogi eu bywydau yng Nghymru gan ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>**Lleoliad**<br>Cynigir y byddai'r safleoedd ysgol presennol yn parhau i fod yn weithredol ond yn gweithredu fel un campws ysgol gynradd ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau rhannu dalgylch presennol.<br><br>Mae'r datblygiad arfaethedig yn sensitif i anghenion y gymuned ac mae hefyd ddealltwriaeth glir o'r manylion a ddarperir yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn a dogfennaeth gysylltiedig â'r cynnig bod proffil ieithyddol presennol a rhagamcanol y cymunedau a'r ardal yn cefnogi'r angen am addysg cyfrwng Saesneg.<br><br>**Amseru**<br>Rhagwelir mai mis Medi 2025 fydd y dyddiad gweithredu. |

## 8. Data a Gwybodaeth

(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio gwaith datblygu'r cynnig? Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiad o gwynion a chanmoliaeth cwsmeriaid a/neu adborth defnyddwyr gwasanaeth eraill, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)

| **Data/tystiolaeth**<br>(Rhowch ddolen i'r adroddiad os yw'n briodol) | **Canfyddiadau perthnasol allweddol** | **Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?** |
|---|---|---|
| Mae sawl maes data wedi bwydo i mewn i'r ymchwil y tu ôl i'r cynnig hwn:<br>• Demograffeg yr ardal leol, gan gynnwys tueddiadau ar gyfer y dyfodol fel y nodir yn adran 6<br>• datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal<br>• canfyddiadau'r asesiad o addysg Gymraeg yn | Gwneir Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 o dan Adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n gymwys i gynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir yn Adran 98 o Ddeddf 2013. Hynny yw, ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir. | Bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion o fewn dalgylchoedd Ysgol Iau Hendre a Babanod Hendre drwy ddarparu dull campws tra'n cadw'r ddau safle presennol, i wella a chefnogi ymhellach y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Saesneg yn ardal Caerffili.<br><br>Caiff yr Asesiad Effaith Integredig hwn ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu |

| | | |
|---|---|---|
| • categoreiddio adeiladau ysgol gan gynnwys cynnal a chadw ôl-groniad y ddwy ysgol gyda'i gilydd<br>• data ar anfantais gymdeithasol ar draws y fwrdeistref sirol<br>• y galw am ddefnydd cymunedol<br><br>. | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ar y prosesau y mae angen cydymffurfio â nhw wrth ddatblygu cynnig.<br><br>Gan fod y cynnig hwn yn awgrymu uno dwy ysgol gymunedol i greu un ysgol gynradd newydd, caiff y broses ymgynghori ei chwmpasu gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a amlinellir yn Adran 3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 a bydd yn cyd-fynd â "Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu" a "Sbectrwm Ymgysylltu" Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.<br><br>Bydd datblygiadau ar bob cam yn destun prosesau craffu, adolygu a chymeradwyo gan Aelodau'r Cabinet. | Addysg a'r Cabinet i gefnogi'r broses benderfynu |

| |
|---|
| **A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi?** Gellir cynnwys manylion gweithgarwch ymgynghori pellach yn Adran 9. |
| Ni nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn. |

## 9. Ymgynghori

(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed os nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gall pobl ddisgwyl, yn ddilys ddigon, y cynhelir ymgynghoriad. Os penderfynwyd bod angen cynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid dilyn

Egwyddorion Gunning.  Ystyriwch y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu.  Noder ei bod yn bosibl y bydd angen diweddaru hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac er mwyn atgyfnerthu'r asesiad.)

| **Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgyngoriadau diweddar neu arfaethedig gan roi sylw arbennig i ddangos tystiolaeth bod Egwyddorion Gunning wedi'u dilyn.** |
| --- |
| Bydd y broses ymgynghori yn mynd rhagddi yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a bydd yn cyd-fynd â Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu a 'Sbectrwm Ymgysylltu' Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.<br>Mae'r broses hefyd yn cefnogi Egwyddor Cynnwys y pum ffordd o weithio mewn perthynas â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, gan gyfeirio'n benodol at yr angen i gael ei harwain gan leisiau pobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Caiff amrywiaeth eang o randdeiliaid eu cynnwys yn ystod y broses ymgynghori. Bydd hyn yn cynnwys ystyried "llais y dysgwr". Caiff amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a mathau o gyfryngau eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu cryf fel rhan o'r broses.<br><br>Bydd yr holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy gydol y broses a bydd fformatau eraill ar gael ar gais.<br><br>Caiff egwyddorion y broses ymgysylltu a nodwyd yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020 yr Awdurdod Lleol eu cydnabod a bydd tîm y prosiect yn ymgysylltu ag unrhyw 'bartïon eraill â diddordeb' yn ôl y gofyn.<br><br>Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth wrth gwblhau proses ymgynghori mewn perthynas â chynnig ar gyfer ysgol er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn ffordd dryloyw, gytbwys ac agored.  Hynny yw, y broses a gaiff ei mabwysiadu gyda'r cynnig hwn, a bydd yn sicrhau y lefel briodol o weithgareddau ymgysylltu ag ymgyngoreion a thryloywder.<br><br>Mae'r cynnig ar y cam ffurfiannol o hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol gan y Cabinet, sef y corff penderfynu yn yr achos hwn. |

## 10. Monitro ac Adolygu

| | |
| --- | --- |
| **Sut y caiff y broses o roi'r cynnig ar waith ac effaith y cynnig eu monitro, gan gynnwys rhoi unrhyw ddiwygiadau ar waith?** | Rheolir y rhaglen ad-drefnu ysgolion gan Fwrdd Prosiec a fydd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth |

| | |
|---|---|
| | Addysg, Cynllunio a Strategaeth, y Prif Swyddog Addysg, Aelod Cabinet a swyddogion allweddol eraill.<br><br>Mae corff llywodraethu'r ddwy ysgol wedi cytuno i symud ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol ar statws cyfuno mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol.<br><br>Mae personél allweddol wedi cael Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sesiynau ar Asesiadau Effaith Integredig ac Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac wedi mynychu hyfforddiant a sesiynau gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Caiff anghenion hyfforddiant eu hadolygu drwy gydol y broses ac eir i'r afael â nhw yn ôl yr angen.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Tîm Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori i ddilyn canllawiau yn ôl y gofyn. |
| **Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer y gwaith monitro?** | Bydd y Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cefnogi'r broses ymgynghori ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar y cynnig i'r Pwyllgorau Craffu, y Cabinet a Chyrff Llywodraethu'r Ysgolion. |
| **Sut y caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?** | Mae'r Cyngor yn cynhyrchu dogfen brotocol ar gyfer pob prosiect agor/cau/cyfuno ysgol.<br><br>Bydd y tîm prosiect yn monitro Gwireddu Buddion. |
| **Pryd y disgwylir i'r cynnig gael ei adolygu?** | Mae'n rhaid i benderfyniadau (mewn perthynas â chynigion y mae angen eu cymeradwyo neu benderfynu'n derfynol arnynt) gael eu gwneud a'u cyflwyno ar ffurf llythyr penderfynu. Mae'n rhaid i'r llythyr penderfynu nodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn glir, gan gyfeirio at God Trefniadaeth Ysgolion 2018. Caiff y llythyr penderfynu ei gyhoeddi'n electronig ar wefan y Cyngor a bydd yr ymgyngoreion, fel yr amlinellir yn Adran 5.6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, yn cael gwybod drwy lythyr/e-bost fod y ddogfen ar gael. |

| | |
|---|---|
| **Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd hyn yn digwydd?** | Gofynnir i Aelodau'r Cabinet adolygu'r cynnig a gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi'r cynnig a amlinellir isod ar waith neu beidio:<br><br>Uno Ysgol Iau bresennol yr Hendre ag Ysgol Fabanod Hendre.<br><br>Os caiff ei gymeradwyo, Awdur yr adroddiad hwn (neu swyddog enwebedig yn ei isadran) fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Asesiad Effaith Integredig a'r cynnig yn cael eu hadolygu a bod unrhyw gamau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith, neu y cymerir camau dilynol yn eu cylch. |

## 11. Argymhelliad a Rheswm/Rhesymau

| | |
|---|---|
| X | Rhoi'r cynnig ar waith heb unrhyw ddiwygiadau |
| | Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a nodwyd |
| | Gwrthod y cynnig oherwydd ei effaith anghymesur ar gydraddoldeb, tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol |

**A ydych wedi cysylltu â'r swyddogion perthnasol er mwyn cael cyngor ac arweiniad?** Ydw

## 12. Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad

(Isod, rhowch grynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig. Dylech gynnwys y crynodeb hwn yn yr adran “Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig” yn Nhempled yr Adroddiad Corfforaethol. Dylech gyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â chynnig yr Adroddiad).

| |
|---|
| Argymhelliad yr Asesiad Effaith Integredig hwn ac yn unol â’r prosesau a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yw bod yr Aelodau’n cymeradwyo’r cynnig i greu Ysgol Gynradd newydd drwy uno Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Fabanod Hendre ar y safle presennol. |

| |
|---|
| 'Uno' yw pan fo dwy neu fwy o ysgolion presennol yn dod yn un ysgol, er enghraifft, lle mae cyn-ysgol fabanod a chyn-ysgol iau yn dod yn ysgol gynradd, sef y cynnig yn yr achos hwn.<br><br>Mae'r ddwy ysgol wedi bod yn 'cydweithredu' yn anffurfiol ers mis Medi 2022. Maen nhw'n rhannu'r un Pennaeth ac mae'r ddau gorff llywodraethu yn cydweithio er budd gorau'r ysgolion, y disgyblion a'r gymuned ehangach.<br><br>Cynigir y byddai safleoedd presennol yr ysgolion yn parhau i fod ar waith ond yn gweithredu fel un campws ysgol gynradd ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau dalgylch a rennir presennol.<br><br>Mae cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol wedi cytuno i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer statws uno mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol. |

## 13. Rheoli Fersiynau

(Dylech ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad Effaith Integredig wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu llywio'r cynnig. Bydd yr adran 'Rheoli Fersiynau' yn gweithredu fel trywydd archwilio er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi datblygu dros amser)

| Rhif y fersiwn | Awdur | Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad | Dyddiad Diwygio |
|---|---|---|---|
| 1. | Andrea West/Lisa Thomas | Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd a nodir yn Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021, defnyddiwyd y templed newydd hwn ar gyfer yr Asesiad Effaith Integredig. | Mehefin 2024 |
| | | | |
| | | | |

### Awdur yr Asesiad Effaith

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Andrea West / Lisa Thomas |
| **Teitl Swydd:** | Tîm Siapio Lle a Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Mehefin 2024 |

**Head of Service Approval**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Sue Richards |
| **Teitl Swydd:** | Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth |
| **Dyddiad:** | Mehefin 2024 |
| **Llofnod:** | S.Richards |